Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol

**YGG Llwynderw**
**Lôn West Cross**
**West Cross**
**Abertawe**
**SA3 5LS**

**Dyddiad yr ymweliad: Ionawr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Ann Jones | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Yn dilyn yr ymweliad monitro blaenorol, bu newidiadau pellach yn staffio'r ysgol, ac arweiniwyd yr ysgol gan bennaeth a dirprwy bennaeth dros dro hyd at Fedi 2013. Penodwyd pennaeth parhaol newydd ym Medi 2013, a dirprwy bennaeth yn Ionawr 2014. Cafodd yr uwch dîm rheoli ei ail-strwythuro i gynnwys y pennaeth, y dirprwy bennaeth, arweinydd cyfnod allweddol 2, ac arweinydd y Cyfnod Sylfaen.

Bernir bod Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yng Ngorffennaf 2011.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

**Argymhelliad 1: Parhau gyda'r safonau da presennol ac yn CA2 gwella ansawdd medrau ysgrifennu ymhlith bechgyn yn Gymraeg, a chodi'r canran o ferched sydd yn cyflawni lefel 5 neu well yng ngwyddoniaeth a mathemateg**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae canlyniadau asesiadau athro ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2013 wedi codi eto ar ôl disgyn rhyw ychydig yn 2012. Yn 2013, roedd y canlyniadau yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ym mhob pwnc ac yn y dangosydd pynciau craidd.

Mae canlyniadau asesiadau athro ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn ysgrifennu Cymraeg a Saesneg yn dangos bod bechgyn wedi gwneud cynnydd da iawn ar ganlyniadau'r blynyddoedd blaenorol ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu uwch). Er bod cyflawniadau'r bechgyn yn parhau'n is na chyflawniadau'r merched ar y lefelau uwch (lefel 5 neu uwch), maent wedi gwneud cynnydd sylweddol. Mae canlyniadau merched ar y lefelau uwch mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru, ac ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg.

Mae llyfrau gwaith disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos bod y ddarpariaeth yn cynnig ystod dda o brofiadau dysgu ar draws pynciau'r cwricwlwm. Mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae llyfrau gwaith y mwyafrif o ddisgyblion yn dangos cynnydd priodol mewn safonau ac mae dilyniant a pharhad clir yn y gwaith.

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli, gyda chymorth yr awdurdod lleol, wedi arwain rhaglen o hyfforddiant ar gyfer staff er mwyn datblygu a gwella dealltwriaeth athrawon o lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae hyn wedi arwain at gydweithio da rhwng holl staff yr ysgol wrth asesu a chymedroli gwaith disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith effeithiol hwn wedi cael digon o amser i wreiddio ar draws yr ysgol hyd yma. O ganlyniad, nid yw'r trefniadau hyn wedi cael digon o effaith ar safonau a chynnydd mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gweithredu yn y dosbarthiadau perthnasol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae safonau disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae'r plant yn gwrando'n dda ac yn ymateb yn briodol mewn sesiynau ffocws, ac maent yn cymryd rhan frwdfrydig yn yr amrywiaeth o weithgareddau sydd ar eu cyfer. Mae eu medrau llythrennedd a rhifedd yn datblygu'n llwyddiannus. Dangosant ddiddordeb cynyddol mewn llyfrau, ac maent yn cymryd rhan yn wirfoddol mewn gweithgareddau ysgrifennu a darllen yn y gwahanol ardaloedd gweithgaredd. Ar lefel briodol i'w gallu a'u hoed, mae'r disgyblion yn medru cymwhyso'u medrau rhif i sefyllfaoedd amrywiol, megis yn y siop, caffi neu gegin.

O ganlyniad i weithredu cynllun datblygu penodol, mae'r ddarpariaeth yn awr yn ateb athroniaeth a gofynion y Cyfnod Sylfaen yn llawn. Mae'r athrawon yn cynllunio'n drylwyr, ac yn ymateb yn dda i syniadau'r plant. Mae'r asesu parhaus sy'n digwydd yn dylanwadu'n dda ar gynllunio'r ffordd ymlaen i'r disgyblion. Yn y dosbarthiadau meithrin, derbyn ac ym Mlynyddoedd 1 i 3, mae cydbwysedd da rhwng gweithgarwch ffocws a rhoi cyfleoedd i blant ddewis cyfeiriad eu dysgu eu hunain. Mae digon o staff ar gael i gefnogi'r dysgu, ac maent yn gwneud hynny'n effeithiol gan fodelu iaith raenus a delio'n briodol gydag unrhyw broblemau ymddygiad.

**Argymhelliad 3: Gwella ansawdd y Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) trwy, er enghraifft, ddefnyddio targedau meintiol, a datblygu rôl athrawon a llywodraethwyr wrth fonitro gwaith yr ysgol o fewn y broses hunan arfarnu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Arweiniodd y pennaeth newydd ymgynghoriad llawn a manwl yn cynnwys pob aelod o'r staff dysgu ac ategol, a'r llywodraethwyr, er mwyn sefydlu gweledigaeth newydd ar gyfer yr ysgol, ac i adnabod blaenoriaethau gwella. O ganlyniad, mae gan staff yr ysgol a'r llywodraethwyr ddealltwriaeth gliriach o'u rolau.

Mae dulliau gweithredu'r tîm rheoli wedi eu sefydlu'n gadarn, ac mae gan yr aelodau ddeallwriaeth drylwyr o'u cyfrifoldebau ac o anghenion datblygu'r ysgol. Maent yn cyfrannu'n effeithiol at fonitro safonau a darpariaeth yr ysgol, ac yn cydweithio'n llwyddiannus fel tîm. Mae'r amserlen fonitro yn glir, ac yn cynnwys arsylwadau gwersi, dadansoddiad data a monitro gwaith disgyblion. Mae'r adroddiadau monitro gan y tîm rheoli ac arweinwyr pynciau yn ddadansoddol, ac yn adrodd yn glir ar gryfderau a meysydd i'w gwella.

Mae'r corff llywodraethol wedi datblygu ei rôl ers yr ymweliadau blaenorol, ac mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Maent yn cydweithio'n agos gyda'r pennaeth ar uwch dîm rheoli, ac yn datblygu rhaglen o ymweliadau monitro i gryfhau eu dealltwriaeth ymhellach.

**Argymhelliad 4: Gwella ansawdd dysgu, addysgu ac ymddygiad ble mae hyn yn anfoddhaol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Ar y cyfan, mae safonau dysgu ac addysgu wedi gwella ar draws yr ysgol. Yn nosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen, mae'r ddarpariaeth yn effeithiol ac yn hybu disgyblion i ddysgu mewn amgylchedd lliwgar a symbylus. Mae'r ddarpariaeth a'r amgylchedd yng nghyfnod allweddol 2 wedi gwella o ganlyniad i creu corneli i gynnig profiadau dysgu mwy heriol ymhob ystafell ddosbarth.

Mae bron pob disgybl yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi, yn eiddgar i gyfrannu ac yn barod iawn i helpu ei gilydd mewn gwaith pâr neu grŵp. Mae medrau llafar y disgyblion yn datblygu'n dda yn unol â'u hoed a'u gallu ar draws yr ysgol. Maent yn siarad yn gynyddol gywir a hyderus. Ar y cyfan, mae'r disgyblion yn ysgrifennu'n hyderus gan wneud defnydd priodol o baragraffau. Maent yn sillafu ac yn atalnodi eu gwaith yn gynyddol gywir. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn cael eu herio yn ddigon cyson i ysgrifennu'n estynedig yn y ddwy iaith ar draws y meysydd dysgu. Hefyd, mae ychydig o anghysondeb o ran safon cyflwyniad a llawysgrifen yn llyfrau disgyblion ar draws cyfnod allweddol 2.

Mae'r holl hathrawon yn cyd-gynllunio'n effeithiol. O ganlyniad, mae'r cynlluniau gwaith yn gyson a chânt eu gweithredu'n llwyddiannus ar draws yr ysgol. Yn yr addysgu gorau, mae cyflymder gwersi'n dda, disgwyliadau'r athrawon yn addas ac maent yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau diddorol sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol. Fodd bynnag, ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2, nid yw'r disgyblion mwyaf abl yn cyflawni'n gyson hyd eithaf eu gallu.

Mae ymddygiad disgyblion yn gyson dda ar draws yr ysgol.

**Argymhelliad 5: Sicrhau bod pob athro a llywodraethwr wedi derbyn hyfforddiant mewn swydd (HMS) ar amddiffyn plant ac ymateb yn fwy effeithiol i'r lleiafrif o'r disgyblion sydd â phryderon am fwlian**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae pob aelod o staff a'r llywodraethwyr wedi derbyn hyfforddiant priodol mewn amddiffyn plant. Maent i gyd yn ymwybodol o'u rôl a chyfrifoldebau.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno ystod o fesurau i ymateb i bryderon disgyblion am fwlian ac mae'r rhain yn effeithiol. Mae'r ysgol yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n barhaus ac yn gweithio'n effeithiol i ddatblygu agweddau cadarnhaol ymhlith y disgyblion.

**Argymhelliad 6: Datblygu asesu ymhellach trwy wella effaith marcio, a dilyniant athrawon i waith sydd heb ei gwblhau neu gywiro gan ddisgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi adolygu a mireinio'r polisi marcio ac erbyn hyn mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gweithredu'r polisi yn gyson. Yn y gwersi, mae'r rhan fwyaf o athrawon

yn ymateb yn gadarnhaol ar lafar ac yn ysgrifenedig i waith disgyblion. Maent yn marcio'r gwaith yn gyson a hefyd yn cynnig cyfeiriad clir i waith disgyblion ac yn eu cynorthwyo i oresgyn problemau. Fodd bynnag, mae sylwadau ysgrifenedig ychydig iawn o athrawon ar sut i wella'r gwaith yn amrywio gormod ac yn arwynebol ar adegau.

Mae'r holl athrawon yn cyflwyno amrywiaeth briodol o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn eu dosbarthiadau. Ar y cyfan, mae hyn yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain ac ar adegau i asesu gwaith ei gilydd. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o wersi, nid yw'r strategaethau hyn yn cael eu defnyddio'n ddigon effeithiol.

Mae'r ysgol yn parhau i weithio er mwyn sicrhau bod pob athro â gwell dealltwriaeth o asesu, cymedroli a safoni gwaith disgyblion. O ganlyniad, mae'r athrawon yn teimlo'n fwy hyderus i nodi ac olrhain cynnydd disgyblion yn briodol. Mae gan athrawon hefyd well dealltwriaeth o ddata perfformiad yr ysgol. Mae'r systemau hyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar addysgu a dysgu ar lawr y dosbarth.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal a gwella ar y cynnydd hwn, dylai'r ysgol barhau i weithio tuag at fynd i'r afael â'r argymhellion nad ydynt hyd yma wedi eu hateb yn llawn.